

# Categorïau / Pethau sy'n perthyn

Mae categoreiddio yn helpu eich plentyn i grwpio gwybodaeth, rhesymu a disgrifio.



Dyma awgrymiadau…


- Deall beth ydi categori
- Rhesymu beth sy'n perthyn
- Rhesymu beth sydd ddim yn perthyn



Mae gwybod beth i'w ofyn a modelu iaith gywir yn bwysig.

# Deall beth ydi categori

Defnyddiwch bethau bob dydd wrth ddysgu categorïau. Dywedwch enw'r gwrthrych ac i ba gategori y mae'n perthyn e.e. "Tedi ydi hwn, mae tedi yn degan."






Defnyddiwch fwydydd e.e. ffrwythau, pethau melys, bwydydd sy'n cael eu cadw'n y rhewgell.



Defnyddiwch ddillad e.e. dillad tywydd oer a dillad tywydd poeth.




Mochyn, dafad, buwch a cheffyl. Beth ydi rhain?

Fedri di enwi pedwar siâp gwahanol?

# Rhesymu beth sy'n perthyn

Mae rhesymu beth sy'n perthyn yn anoddach na rhestru pethau mewn categori.



Dewiswch bethau sy'n perthyn a gofynnwch i'ch plentyn eu henwi ac yna eu paru e.e. brws a phâst dannedd.


 



Dewiswch bethau sy'n perthyn a gofynnwch i'ch plentyn eu henwi, eu paru ac egluro pam e.e. Rydw i angen peg a basged i roi dillad ar lein.




Pa bryd wyt ti angen potel ddŵr poeth a phyjamas?

Pa ddau beth wyt ti angen amser brecwast?

# Rhesymu beth sydd ddim yn perthyn

Wrth resymu beth sydd ddim yn perthyn, rhaid meddwl am fwy nag un peth.






Dewiswch bethau sy'n perthyn ac un peth sydd ddim yn perthyn. I ddechrau, gwnewch y dewis yn amlwg. Gofynnwch i'ch plentyn eu henwi, dweud pa un sydd ddim yn perthyn a pham e.e. "Mae'r tywel a siampŵ yn bethau sy'n yr ystafell ymolchi, ond mae'r ffrâm yn rywbeth sy'n yr ystafell fyw."



Gwnewch bethau'n anoddach drwy ddewis pethau sy'n yr un categori, ond yn cael eu defnyddio'n wahanol. Gofynnwch i'ch plentyn enwi'r categori, dweud beth sydd ddim yn perthyn a pham e.e. "Mae rhain yn bethau amser gwely, y llyfr sydd ddim yn perthyn oherwydd rydw i'n darllen llyfr ac yn gwisgo côt nos a slipars."



Beth sydd ddim yn perthyn / ddim i fod yna?

Pam nad ydi o ddim yn perthyn / ddim i fod yna?